OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1064

# Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018

## RHAN 7

## Rhywogaethau mochlysaidd penodol: plannu a rheoli plâu planhigion perthnasol

**Darpariaethau amrywiol ar gyfer rhywogaethau mochlysaidd penodol**

**39.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson blannu yn fwriadol unrhyw datws neu unrhyw datws a gynhyrchir o'r tatws hynny, sydd wedi eu tyfu mewn trydedd wlad, ac eithrio'r Swistir, na pheri neu ganiatáu yn fwriadol iddynt gael eu plannu.

(2) Ni chaiff unrhyw berson blannu unrhyw datws yn fwriadol na pheri neu ganiatáu yn fwriadol iddynt gael eu plannu oni bai—

(a) eu bod yn tarddu mewn llinell uniongyrchol o ddeunydd tatws sydd wedi ei gael o dan raglen a gymeradwywyd yn swyddogol yn yr Undeb Ewropeaidd neu'r Swistir;

(b) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag Pydredd coch tatws mewn profion swyddogol gan ddefnyddio'r dulliau a nodir yn Atodiad II i Gyfarwyddeb 98/57/EC; ac

(c) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag Pydredd cylch tatws mewn profion swyddogol gan ddefnyddio'r dulliau a nodir yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 93/85/EEC.

(3) Mae'r canlynol yn cael effaith mewn perthynas â rheoli plâu planhigion penodol—

(a) Atodlen 13 (mesurau arbennig ar gyfer rheoli Clefyd y ddafaden tatws);

(b) Atodlen 14 (mesurau arbennig ar gyfer rheoli Llyngyr tatws);

(c) Atodlen 15 (mesurau arbennig ar gyfer rheoli Pydredd cylch tatws); a

(d) Atodlen 16 (mesurau arbennig ar gyfer rheoli Pydredd coch tatws).

(4) Pan gadarnheir bod Pydredd coch tatws yn bresennol ar sampl a gymerwyd yn unol ag Erthyglau 2 a 5 o Gyfarwyddeb 98/57/EC, caiff arolygydd ddarnodi parth yn unol ag Erthygl 5(1)(a)(iv) neu 5(1)(c)(iii) o'r Gyfarwyddeb honno er mwyn atal y pla planhigion hwnnw rhag lledaenu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 39 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 28/03/2019.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018, RHAN 7.